## YR ATODLEN

Erthygl 3(4)

**1.** Caiff yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol, ar ôl talu unrhyw dreuliau a achosir iddi mewn cysylltiad â gweinyddu'r Sefydliad, ddefnyddio cyfalaf ac incwm y Sefydliad at unrhyw rai o'r dibenion canlynol—

(a) ar gyfer prynu, neu tuag at brynu, safle ar gyfer, neu adeiladu, gwella neu ehangu mangre unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth;

(b) ar gyfer cynnal unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth;

(c) ar gyfer prynu, neu tuag at brynu, safle ar gyfer, neu adeiladu, gwella neu ehangu mangre unrhyw dŷ athro neu athrawes ar gyfer ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth; ac

(d) ar gyfer cynnal unrhyw dŷ athro neu athrawes ar gyfer ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth.

**2.** Caiff yr Ymddiriedolaeth Esgobaethol hefyd, ar ôl talu unrhyw dreuliau a achosir iddi mewn cysylltiad â gweinyddu'r Sefydliad, ddefnyddio incwm y Sefydliad at unrhyw rai o'r dibenion canlynol—

(a) ar gyfer darparu, neu tuag at ddarparu, cyngor, arweiniad ac adnoddau (gan gynnwys deunyddiau) mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud â rheolaeth unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth, neu'r addysg a ddarperir mewn unrhyw ysgol o'r fath;

(b) darparu gwasanaethau ar gyfer cynnal unrhyw arolygiad o unrhyw ysgol berthnasol yn yr Esgobaeth sy'n ofynnol o dan Ran 1 o Ddeddf Addysg 2005(**1**); ac

(c) talu'r gost o gyflogi staff neu eu cymryd ymlaen mewn cysylltiad ag—

(i) defnyddio incwm asedau'r Sefydliad ar gyfer y naill neu'r llall o'r dibenion y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a) a (b) uchod,

(ii) defnyddio cyfalaf ac incwm asedau'r Sefydliad ar gyfer unrhyw rai o'r dibenion y cyfeirir atynt ym mharagraff 1 uchod.

**3.** Ystyr "ysgol berthnasol" ("*relevant school*") yw ysgol o'r math y cyfeirir ato yn erthygl 4(2).

(**1**) 2005 p.18.